CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

974/51

**MATHEMATEG C2**

**Mathemateg Bur**

P.M. DYDD LLUN, 10 Ionawr 2005

($1\frac{1}{2}$ awr)

# Y FANYLEB NEWYDD

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- llyfr ateb 12 tudalen;
- Llyfryn Fformiwlâu;
- cyfrifiannell.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **bob** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi bod angen Cymraeg da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

JD*(C023/31)

**1.** Defnyddiwch Reol y Trapesiwm gyda phum mesuryn i ddarganfod bras werth ar gyfer

$$\int_0^1 \sqrt{1+x^3}\,\mathrm{d}x.$$

Dangoswch eich gwaith cyfrifo a rhowch eich ateb yn gywir i ddau le degol. [4]

**2.** Defnyddiwch yr amnewid $3^x = u$ i ddatrys yr hafaliad

$$3^{2x} - 3^{x+2} + 14 = 0,$$

gan roi eich atebion yn gywir i dri lle degol. [6]

**3.** *(a)* Darganfyddwch holl werthoedd $x$ yn yr amrediad $0° \leqslant x \leqslant 360°$ sy'n bodloni

$$2\sin^2 x + \cos x - 1 = 0.$$ [6]

*(b)* Darganfyddwch holl werthoedd $x$ yn yr amrediad 0° i 180° sy'n bodloni

$$\tan 3x = 1.$$ [4]

**4.** Hydoedd tair ochr triongl yw 8·5 cm, 6·8 cm a 9·4 cm. Darganfyddwch, yn gywir i un lle degol,

*(a)* ongl fwyaf y triongl,

*(b)* arwynebedd y triongl. [5]

**5.** Mewn cyfres rifyddol, swm y term cyntaf a'r pumed term yw sero. Y trydydd term ar ddeg yw 20.

*(a)* Darganfyddwch derm cyntaf a gwahaniaeth cyffredin y gyfres. [5]

*(b)* Cyfrifwch swm ugain term cyntaf y gyfres. [2]

**6.** Rhoddir y cylchoedd $C_1$ ac $C_2$

gan $(x+1)^2 + (y+2)^2 = 25$

a $x^2 + y^2 - 10x - 5y + 25 = 0$, yn ôl eu trefn.


*(a)* Ysgrifennwch radiws $C_1$ a chyfesurynnau canol $C_1$. [2]

*(b)* Darganfyddwch radiws $C_2$ a chyfesurynnau canol $C_2$. [3]

*(c)* Dangoswch fod $C_1$ ac $C_2$ yn cyffwrdd â'i gilydd. [3]

**7.** *(a)* Integrwch $3\sqrt{x} - \frac{6}{x^3}$ mewn perthynas ag $x$. [2]

*(b)*




Mae'r diagram yn dangos braslun o'r gromlin $y = 16 - x^2$ a'r llinell $y = 2x + 13$. Mae'r llinell a'r gromlin yn croestorri yn y pwyntiau $A$ a $B$.

(i) Darganfyddwch gyfesurynnau $A$ a $B$. [3]

(ii) Darganfyddwch arwynebedd y rhanbarth sydd wedi'i dywyllu. [7]


**8.** *(a)* Term cyntaf cyfres geometrig yw $a$ a'r gymhareb gyffredin yw $r$. Profwch y rhoddir swm yr $n$ term cyntaf gan

$$S_n = \frac{a(1 - r^n)}{1 - r} .$$

O wybod bod $|\, r \,| < 1$, ysgrifennwch swm i anfeidredd y gyfres. [4]

*(b)* Mae swm i anfeidredd cyfres geometrig yn hafal i 4. Swm dau derm cyntaf y gyfres yw 3. Darganfyddwch y gymhareb gyffredin, o wybod ei bod yn bositif. [5]

**9.**




Yn y diagram, mae'r pwyntiau $A$ a $B$ ar gylch, canol $O$ a radiws 4 cm. Mae'r tangiad i'r cylch yn $A$ yn croestorri'r llinell $OB$ wedi'i hestyn *(produced)* yn y pwynt $C$. Hyd yr arc $AB$ yw 3 cm.

*(a)* Darganfyddwch $A\hat{O}B$ mewn radianau. [2]

*(b)* Cyfrifwch arwynebedd y rhanbarth sydd wedi'i dywyllu. Rhowch eich ateb yn gywir i ddau le degol. [4]

**10.** *(a)* Dangoswch, os yw $x > 0$, fod

$$\log_a x^k = k \log_a x.$$ [3]

*(b)* Datryswch yr hafaliad

$$\log_{10}(x^2 + 48) = \log_{10} x + 2\log_{10} 4.$$ [5]